**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 03-03(Cofn. drafft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **13 Chwefror 03** |
| **Amser** | **9.00am – 12.30pm** |
| **Lleoliad** | **Shotton Paper, Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint** |

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Hobbs | ICM3 |
| John Clarke | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Katharine Himsworth | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Sheila Maxwell | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Howarth | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| David Jenkins | TUC Cymru |
| Alwyn Rowland | AMICUS |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Roedd Eleanor Burnham yn bresennol ar ran Mick Bates a anfonodd ei ymddiheuriadau.
2. Gwnaed datganiad o fuddiant gan Dafydd Wigley sydd yn Gadeirydd Bwrdd Cynghori Ysgol Fusnes a Datblygu Rhanbarthol, Prifysgol Cymru, Bangor.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**EDC 03-03(p1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf yr amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad.
2. Ar Gynllun Adfywio Aberteifi a De Ceredigion dywedodd yr aelodau mai dim ond £5 miliwn o'r buddsoddiad o £30 miliwn oedd yn arian newydd mewn gwirionedd. Dywedodd y Gweinidog fod cyfanswm y cyllid ar gyfer Cynlluniau Adfywio Aberteifi a Cheredigion ac Abergwaun a Gogledd Sir Benfro yn dod i dros £60 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys £10 miliwn o arian newydd, £5 miliwn ar gyfer pob prosiect. Dywedodd fod lefel y buddsoddiad yn llai pwysig na darparu dull holistaidd o fynd ati a fyddai'n dod â'r holl asiantaethau perthnasol yng Nghymru ynghyd. Er eu bod yn croesawu'r fenter, roedd yr aelodau yn awyddus i wybod beth oedd yn pennu bod ardal yn derbyn buddsoddiad mewn cynllun adnewyddu strwythurol. Dywedodd y Gweinidog mai mater o farn fyddai hyn bob amser.
3. Dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu at y datganiad a wnaeth yn y cyfarfod llawn y diwrnod blaenorol ynghylch y bwriad i gau KTH yn Llanidloes. Ychwanegodd ei fod yn archwilio ffyrdd o gadw cynhyrchiant i fynd a chytunodd i roi'r manylion diweddaraf am y datblygiadau i'r aelodau.
4. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi siarad â'r Adran Masnach a Diwydiant a Peter Hain a'i fod wedi ysgrifennu atynt ynghylch yr ocsiwn 3.4GHz am fynediad di-wifren ar gyfer band eang a'i fod yn siomedig iawn gyda phenderfyniad yr Asiantaeth Radio-gyfathrebu i beidio â diwygio'r map. Fodd bynnag, dywedodd fod amrywiaeth o fecanweithiau eraill ar gael ar gyfer darparu band eang trwy gyfryngau di-wifren eraill a chytunodd i ddarparu rhagor o fanylion am hyn i'r aelodau.**[Gweithredu: Gweinidog DE]** Yn ei lythyr at yr Adran Masnach a Diwydiant roedd wedi tynnu sylw at y risg y gallai deiliad trwydded ddewis cadw'r drwydded iddo'i hun heb ddarparu unrhyw fynediad band eang ledled Cymru.

5. Mynegodd aelod syndod at y ffaith y byddai Prosiect y Fro Ddigidol yn seiliedig ar dechnoleg radio ddi-drwydded gan ei fod yn meddwl y byddai cystadleuaeth am amledd yn ôl pob tebyg. Dadleuwyd bod cyfryngau di-wifr yn adnodd pwysig iawn ac y dylent gael eu cynllunio'n strategol yn hytrach na'u defnyddio ar sail ad-hoc. Awgrymwyd y gallai £1/2 miliwn fod wedi cael ei ddefnyddio yn fwy effeithiol wrth ddiweddaru'r ADSL.
6. Ailadroddodd y Gweinidog yr hyn yr oedd wedi'i ddweud yn flaenorol am ei bolisi band enag a'r ffaith ei fod yn mabwysiadu dull o fynd ati heb ddefnyddio technoleg. Ychwanegodd fod BT a chwmnïau masnachol eraill ar draws y byd wedi cyfaddef eu bod wedi bod yn rhy gyfarwyddol yn eu dewis o dechnolegau yn y gorffennol.
7. Cyfeiriwyd at y targed yn Cymru'n Ennill i greu 34,000 o swyddi ychwanegol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd erbyn mis Mawrth 2003. Gofynnodd yr aelodau pa gynnydd oedd wedi cael ei wneud tuag at gyrraedd y targed. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y ffigurau ganddo ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth i'r Pwyllgor cyn hir. **[Gweithredu: Gweinidog DE]** Ychwanegodd ei fod yn teimlo ei bod yn annhebygol y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd ac fe briodolodd hyn yn bennaf ag amodau masnachu byd eang anodd iawn. Dywedodd fod yr LFS diweddaraf yn dangos marchnad lafur fywiog yng Nghymru. Mynegodd yr Aelodau eu siom oherwydd bod methu â chyrraedd y targed hefyd yn effeithio ar y sefyllfa mewn perthynas ag amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru i gau'r bwlch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP).
8. Mewn ymateb i gwestiynau penodol, cadarnhaodd y Gweinidog fod Universal Furniture wedi dod o hyd i adeiladau amgen, gan ddiogelu swyddi yng Nghwm Cynon a hefyd fod Alexon yn rhoi'r gorau i gynhyrchu dillad ym Mhontypridd ac yn adleoli dramor.
9. Ar y cynllun cofrestru statudol posibl ar gyfer llety i dwristiaid, dywedodd y Gweinidog ei fod o blaid yr egwyddor ond bod rhai o'r prif faterion sy'n ymwneud â gweithredu a rhoi'r cynllun ar waith yn parhau. Ychwanegodd na fyddai'n dod i benderfyniad am y cynllun nes y byddai'r Gweithgor wedi rhoi adroddiad iddo.
10. Gofynnodd rhai aelodau ynghylch y gostyngiad parhaus mewn swyddi yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ac a oedd polisi yn bodoli i leihau swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru a symud tuag at gynnydd yn y diwydiannau gwasanaeth. Dywedodd y Gweinidog fod gweithgynhyrchu yn cyfrif am 30% o'r GDP yng Nghymru a bod ganddo rôl sylfaenol o hyd fel un o ysgogwyr yr economi. Cydnabu fod llawer o weithgynhyrchwyr traddodiadol yn symud i Asia a'r Dwyrain Pell a bod llawer o swyddi newydd yn cael eu creu yng Nghymru mewn marchnadoedd arbenigol, technoleg uchel. Rôl y Llywodraeth yw cefnogi cwmnïau sydd yn symud o gynhyrchiant uchel/gwerth isel i gynhyrchiant isel/ gwerth uchel.

**Eitem 3: Cronfeydd Strwythurol**

**EDC 03-03(p2)**
**EDC 01-03(p3)**

**Adroddiad Chwarterol y Cronfeydd Strwythurol.**

1. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod cyfanswm y prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y Cronfeydd Strwythurol wedi cyrraedd £1bn. Roedd yn falch o ddweud mai hwn bellach oedd y cyfanswm ar gyfer Amcan 1 yn unig. Cadarnhaodd fod dadneilltuo cyllid wedi cael ei osgoi yn 2002. Dywedodd John Clarke ei fod ar y cyfan yn fodlon ar y cynnydd hyd yn hyn.
2. Gofynnodd yr aelodau am effaith cyfradd gyfnewid yr Ewro, a oedd wedi symud o'r ffigur 61.7, sef y ffigur yr oedd y cynllun wedi'i seilio arno. Cadarnhaodd y swyddogion y polisi presennol sef, unwaith y bydd y gyfradd wedi symud 5% mewn tri mis dilynol, ac yn ddibynnol ar gyngor gan yr Is-adran Cyngor Economaidd, byddai tablau ariannol y Rhaglen Ategol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r brif gyfradd newydd. Fe wnaethant ddweud bod hyn yn debygol o ddigwydd yn fuan.
3. Er y llwyddwyd i osgoi dadneilltuo, mynegwyd pryder mai dim ond ar gyfer 2002 yr oedd hyn. Her fwy o lawer fyddai osgoi dadneilltuo y flwyddyn ganlynol, a thu hwnt. Gofynnodd yr Aelodau am y lefel briodol o orneilltuo sy'n angenrheidiol wrth gymeradwyo prosiect er mwyn gallu osgoi hyn. Dywedodd y swyddogion nad oedd y PMC ar hyn o bryd yn gwrthod prosiectau ar sail faint o gyllid sydd ar gael er mwyn osgoi'r risg o ddandeilltuo. Fodd bynnag, fe wnaethant ddweud mai mater o gadw cydbwysedd oedd hwn ac na fyddent yn gallu gwarantu y byddent yn osgoi dadneilltuo.
4. Cadarnhaodd WEFO eu bod yn parhau i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am arian Amcan 1 ac y byddai ffurflen newydd, y byddai ceiswyr yn gallu atodi cynllun busnes ar wahân iddi, yn cael ei lansio'n fuan. Fodd bynnag, fe wnaethant ddweud fod y ffurflen wreiddiol wedi cael ei chynllunio i ddarparu'r union wybodaeth yr oedd ei hangen i werthuso cais. Er y byddai symleiddio'r ffurflen yn ei gwneud yn haws i'r ceiswyr gyflwyno cais, gallai ei gwneud yn anoddach i'r swyddogion ei gymeradwyo. Efallai na fydd hyn yn arwain at unrhyw welliant yn yr amserau prosesu; ond byddent yn gwneud eu gorau. Fe wnaethant ddweud mai'r ffordd orau i fusnes bach gael cymorth fyddai trwy un o'r cronfeydd allweddol, megis Cyllid Cymru. Ar y cwestiwn o gyllid cyfatebol, fe wnaethant atgoffa'r Aelodau eu bod wedi cyhoeddi cyfres o daflenni gwybodaeth yn ddiweddar a bod y rhain wedi cael eu rhoi i'r Aelodau mewn cyfarfod diweddar.
5. Mynegwyd pryder am y lefel weddol isel o ymrwymiad o dan Flaenoriaeth 3 o Amcan 1 ac roeddent yn meddwl a oedd yn gysylltiedig ag anawsterau gyda chyllid cyfatebol. Dywedodd y swyddogion fod tystiolaeth sy'n dangos bod rhai ceiswyr, megis grwpiau cymunedol, yn tueddu i orfod cael mwy o amser i lunio prosiect na grwpiau eraill. Er y byddai'n angenrheidiol adolygu'r cyllid sy'n cael ei

ddyrannu yn yr adolygiad canol tymor, roedd risg y byddai'r math hwn o grwp yn dioddef petai'n cael ei wneud yn rhy gynnar. Fe wnaethant ddweud mai'r farn gyffredinol oedd nad oedd cyllid cyfatebol yn fater o bwys mawr.

6. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch dyrannu cyllid i'r sector gwirfoddol o dan flaenoriaeth 3, mesur 4, dywedodd John Clarke y byddai'n darparu'r wybodaeth hon ar wahân. **[Gweithredu: John Clarke]**
7. Roedd camau ar y gweill i benodi 7 o hyrwyddwyr yng Ngogledd Cymru. Roedd dau wedi cychwyn ar eu swyddi, roedd 4 yn disgwyl cychwyn yr wythnos ddilynol ac roedd un yn aros i dderbyn y swydd.
8. Cyfeiriwyd at batrwm anwastad yr ymrwymiad ar gyfer Blaenoriaeth 5, Mesurau 6 a 4 lle'r oedd yn is ar gyfer y cymoedd na'r ardaloedd gwledig. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi cynnal gweithdy yn ddiweddar i rannu arferion gorau a'u bod yn gobeithio cynyddu niferoedd mewn ardaloedd megis y Cymoedd, lle roedd yn isel.
9. Roedd yr aelodau yn pryderu am argaeledd cyllid cyfatebol ac, yn benodol, lle y gallai diffyg cyllid cyfatebol arwain at wrthod cais. Cyfeiriodd y swyddogion at 'y dull ariannu y troir ato olaf' sydd ar gael gan y Cynulliad ar gyfer prosiectau a oedd wedi methu â chael cefnogaeth gan unrhyw gynllun arall. Roedd yr aelodau yn pryderu mai proses adweithiol oedd y broses ar gyfer dyrannu'r arian hwn ac nad oedd dull strategol o fynd ati i'w ddyrannu.
10. Roedd yr aelodau hefyd yn pryderu y byddai'r mesurau mwy poblogaidd yn rhedeg allan o arian cyn yr adolygiad canol tymor petai'n amhosibl ail-ddyrannu cyllid cyn hynny ac y byddai hyn yn arwain at atal ceisiadau. Dywedodd y swyddogion eu bod yn chwilio am ffyrdd o reoli'r mater hwn a'u bod yn gobeithio y byddent yn osgoi unrhyw broblemau.
11. Gofynnodd yr aelodau ynghylch yr Adroddiadau Partneriaeth Lleol y maent yn eu disgwyl yn gynnar ym mis Mawrth. Byddai'r rhain yn rhoi ciplun o'r prosiectau, amser eu rhyddhau a byddai'n adlewyrchu'r ceisiadau a oedd wedi dod i law yr amser hwnnw, ac nid y rhai a oedd yn cael eu disgwyl.
12. O ran y cwestiwn o'r materion a godwyd yn ddiweddar mewn cysylltiad â Phrifysgol Bangor, dywedodd y swyddogion eu bod wedi cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd a'u bod yn aros am ymateb. Roeddynt wedi cyflwyno cynigion i Fangor mewn perthynas â thaliadau interim, ond nad oedd y Brifysgol yn brysio i fynd ar drywydd y rhain ar hyn o bryd.

**Y Pwyllgor Archwilio**

13. Wrth gyflwyno Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, pwysleisiodd Dafydd Wigley, fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw mai archwilio'r modd y mae polisi yn cael ei roi ar waith, ac nid y polisi ei hun oedd ei rôl. Dywedodd fod yr Archwilydd Cyffredinol a'r Llywodraeth wedi cytuno ar yr Adroddiad ac nad oedd y ffeithiau a gynhwysir ynddo yn destun dadl. Dywedodd fod y Pwyllgor bellach wedi derbyn ymateb y

Llywodraeth a'i fod yn siomedig nad oedd wedi bod yn fwy brwdfrydig i dderbyn yr argymhellion. Dywedodd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu edrych eto yn fuan ar y camau sy'n cael eu cymryd i roi'r argymhellion ar waith.

14. Ategodd yr aelodau bryderon Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a dweud bod argymhellion y Pwyllgor Archwilio fel arfer yn cael eu 'derbyn' a'u bod yn synnu bod ymateb y Llywodraeth wedi cynnwys cymaint o amodau.
15. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn cytuno mai ymateb difater a gafwyd gan y Llywodraeth. Roedd yn ymateb positif ac roeddynt wedi derbyn yr holl argymhellion. Fodd bynnag, roedd Adroddiad gwreiddiol yr Archwilydd Cyffredinol wedi cael ei gyhoeddi ychydig amser yn gynt a bod y gwaith i'w roi ar waith wedi bod yn mynd yn ei flaen ers cryn amser. Tynnodd sylw at yr anawsterau y mae WEFO yn eu hwynebu a'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gweithredu'r rhaglenni ac ymateb i geisiadau i graffu ar y rhaglenni, eu monitro a'u gwerthuso.
16. Ailadroddodd John Clarke y pwynt, gan ddweud eu bod yn meddwl fod Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ddefnyddiol iawn a'i fod wedi cydweithio â nhw dros y 15 mis diwethaf yn gwneud gwelliannau. Dywedodd eu bod wedi derbyn yr holl argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio.
17. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn dymuno mynegi diolch y Pwyllgor Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn gyhoeddus am y gwaith yr oeddynt wedi'i wneud yn archwilio'r modd y mae'r Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gweithredu.
18. Nododd yr aelodau yr argymhellion yn yr adroddiad sy'n ymwneud â gwelliant parhaus y systemau gwybodaeth yn WEFO ac roeddent yn gobeithio y byddai'r wybodaeth a gasglwyd ar gael i'r cyhoedd. Yn benodol, tanlinellwyd pwysigrwydd gallu asesu effaith y Cronfeydd Strwythurol ar ardaloedd bach yng Nghymru. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod llawer o brosiectau yn ymwneud â phobl a gwariant mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru a'i bod yn aml yn anodd nodi'r lefel benodol o wariant sy'n mynd i ardal fach iawn. Roedd y rhaglen wedi cael ei chynllunio i ganolbwyntio ar yr ardal gyfan ac roedd y gronfa ddata wedi cael ei pharatoi er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Er bod y swyddogion yn ceisio ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, nid oedd hyn bob amser yn bosibl a gallai ymyrryd â'r broses o wneud taliadau.
19. Wrth gloi'r drafodaeth, pwysleisiodd Dafydd Wigley bwysigrwydd sicrhau Gwerth am Arian gyda'r Cronfeydd Strwythurol ac roedd yn gobeithio y byddai'r wybodaeth a gasglwyd ar gael at y diben hwn. Tanlinellodd bwysigrwydd osgoi dadneilltuo cronfeydd a dywedodd fod yr Archwilydd Cyffredinol bob amser yn awyddus i dderbyn sylwadau gan bobl sy'n pryderu am weithrediad y rhaglen. Nododd fod y Gweinidog wedi ailddatgan ei fod yn derbyn yr 18 argymhelliad a dywedodd y byddai angen disgwyl i weld a fyddent yn cael eu gweithredu a pha mor gyflym y byddai hynny'n cael ei wneud. Gobeithiodd y byddai'r Gweinidog yn darparu terfyn amser i'w rhoi ar waith er mwyn helpu'r Pwyllgor i werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

**Eitem 4: TUC Cymru**

**EDC 03-03(p3)**

1. Cyflwynodd David Jenkins ei bapur a thynnodd sylw at y pwysigrwydd y mae TUC Cymru yn ei roi ar arferion cyflogi da. Dywedodd fod nifer cynyddol o'r farn bod arferion da yn y gweithle yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i gynhyrchiant ac elw. Cadarnhaodd Alwyn Rowland bwysigrwydd partneriaeth a rhoddodd rai enghreifftiau ymarferol o arferion gorau.

2. Cododd yr aelodau y materion a ganlyn mewn trafodaeth:

- Dywedodd yr aelodau y byddent yn dymuno i'r Gweinidog gynnwys y Pwyllgor mewn unrhyw adolygiad gydag ELWa ynghylch darparu canolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant rheoli yng Nghymru. Fe wnaethant hefyd ddweud y dylai ansawdd yr hyfforddiant rheoli a gynigir mewn llawer o'r Prifysgolion yng Nghymru gael ei ystyried mewn unrhyw adolygiad.

- Gofynnodd yr aelodau i'r siaradwyr ddarparu enghraifft o gytundeb teir-ran. **[Gweithredu: David Jenkins/Alwyn Rowland]**

- Roedd un aelod yn teimlo nad oedd digon o bwyslais yn cael ei roi ar ddarparu gofal plant mewn llawer o fodelau o arferion gwaith da.

- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei weld fel enghraifft dda o gyflogwr. Dylai grantiau a chaffael y sector cyhoeddus hefyd wobrwyo arferion gwaith da.

3. Oherwydd prinder amser cytunodd y siaradwyr i roi ymatebion ysgrifenedig i'r aelodau ynghylch y materion yr oeddent wedi'u codi. **[Gweithredu: David Jenkins/Alwyn Rowland]** Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu papur yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau ar safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y materion hyn. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 02-03 Cofnodion (Drafft)**
**EDC 03-03 Camau i'w cymryd**

1. Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir yn amodol ar gynnwys y geiriad canlynol ym mharagraff 2.20.*[I ddilyn]*
2. Yng Nghofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, cytunwyd y dylai'r

frawddeg sy'n darllen *'Nid oedd sefydliadau hunan-arlwyol yn gynwysedig yn y cynigion ar gyfer cofrestru statudol. '* gael ei newid i

*Ni chafodd sefydliadau hunan-arlwyol eu cynnwys yn y cynllun arfaethedig 'fitness for purpose' ar gyfer Lloegr, ond maent yn cael eu cynnwys yng nghynigion Bwrdd Croeso Cymru am gofrestru statudol yng Nghymru.'*

3. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r camau sydd ar ôl o Eitem 2.8 o gyfarfod 14 Tachwedd yn cael eu cynnwys yn ei adroddiad ar 6 Mawrth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**